# Jane Phillips Award

*To mentor, nurture and support the professional artistic growth of young, emerging artists across the Visual and Applied Arts*

## Proffil Graddedigion 2015

**Arddangosfa Oddi ar Safle Oriel Mission @ Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**

03 Gorffennaf – 26 Gorffennaf 2015

# Gwobr Jane Phillips

## Proffil Graddedigion 2015

### Arddangosfa Oddi ar Safle Oriel Mission @ Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

03 Gorffennaf – 26 Gorffennaf 2015

Cafodd y wobr Jane Phillips ei greu yn 2011 er cof am Jane Phillips (1957 – 2011) cyfarwyddwr cyntaf Oriel Mission. Mae'r wobr yn gymynrodd i angerdd Jane am feithrin talent, yn cefnogi'n gyson artistiaid ifanc, ymddangosedig dros gelfyddyd Gweledol a Chymhwysol yng Nghymru a phellach.

Mae'r wobr yn llwyddiannus ac yn datblygu, gan ymateb i'r gymuned artistig a ffurfio partneriaethau newydd. Rydym am ddatblygu a lledaenu'r wobr wrth gyflwyno dwy wobr newydd, ynhyd â rhaglen blwyddyn o Breswyli, gan gynnwys partneriaeth ryngwladol, a fydd yn bodoli wrth ochr y brif wobr.

Byddwn yn cefnogi, ar sail blynyddol, myfyrwyr dethol Celf a Dylunio UWTSD, Abertawe a Chaerfyrddin gyda Gwobr Myfyriwr. Bydd hwn ar ffurf arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, ynghyd â Chyfnod Preswyl ar wahân i Fyfyriwr yn Stiwdio newydd Elysium ar y Stryd Fawr yn Abertawe. Bydd y rhain yn bodoli wrth ochr ac yn cefnogi, prif wobr Jane Phillips.

Yn dilyn taith o amgylch y sioeau gradd, mae'n bleser cyflwyno yr artistiaid dethol a wahoddwyd i gymryd rhan yn y Proffil Graddedigion:

Stine Aas Nundal

Rhiannon Ames


Thomas Deacon

Ciara Long

Catrin Jones

Rose Seymour

Caryl Mair Davies



**Stine Aas Nundal**

BA (Anrh) Ffotograffiaeth yng Nghelfyddyd

Coleg Celf Abertawe

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Mae'r meddwl yn neidio i le tywyll sydd yn ein gorfodi i wynebu unigrwydd bodolaeth pan gollwn rywun heb rybudd neu reswm. Pan yn gwynebu'r unigrwydd yma, fe ddaw a theimlad o gyfarch hen ffrind. Yn yr unigfa llydan ac anfesurol a'r galar  yma sydd wedi ysbrydoli'r delweddau yma. Hyd yn oed mewn torf, chi ar ben eich hun yn eich pen.

Mae'r gwaith yma am brofiadau'r ffotograffydd wedi colli un annwyl, wrth weithio mewn ffordd hunan cymelliadol a naturiol, gan gyflawni rhywbeth agos i fodd dyddiadurol i ffotograffiaeth. Mynegiad o ddarfodigaeth, colled neu newid, trosiadau ac atgofion mewn ffocws, ac mae'r gwaith wedi'i saethu  gyda golau naturiol yn unig, sydd yn rhoi naws o realiti ac agosatrwydd. Nod y gwaith yma yw cyfleu teimlad o anobaith, unigrwydd, tristwch a galar mewn ffordd dawel. Darlun taith bersonol y ffotograffydd trwy golled.

Stineaasnundal.com | stine.nundal@gmail.com




**Rhiannon Ames**

BA (Anrh) Celf Gain
Coleg Celf Abertawe
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Archwilia ymarfer Rhiannon cydbwysedd pŵer a rheoliad rhwng dynion a menywod wrth drafod eu darluniad a rôl o fewn cymdeithas gyfoes. Nod *'Collectively Led back to the Kitchen'* yw amlygu sut mae patriarchaeth a'r cyfryngau yn cyfeirio at ymddygiad rhyw weddus, nodweddion ac agweddau sydd yn parhau i ddangos cymdeithas fel i ymddwyn a meddwl mewn ffordd benodol. Mae'r gwaith yma yn cydosod iaith draddodiadol a gysylltir â'r ddelfryd fenywaidd a gweithgareddau ystrydebol 'gwrywol'. Nid yw rhyw yn fodolaeth 'sefydlog' gan ellid ei berfformio a'i fanipiwleiddio I 'ffitio' achlysur priodol o fewn cymdeithas gyfoes. Mae Rhiannon yn tarfu ar ddelfrydau rhywiol wrth gwestiynu'r honiadau yma drwy ddadwneud ac ailadeiladu hunaniaeth. Wrth herio cydymffurfiad cymdeithas, mae Rhiannon yn creu darnau sydd yn cynnig dehongliadau hunaniaeth newydd.

rhiannonames.com | rhiannon.ames@hotmail.com

**Thomas Deacon**

BA (Anrh) Ffotograffiaeth yn y Cyfryngau


Coleg Celf Abertawe

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Dechreuodd y prosiect yma ym mlwyddyn olaf Thomas yn astudio Ffotograffiaeth yn y Cyfryngau yng Ngholeg Celf Abertawe. Dogfenna'r gwaith ffoaduriaid yn byw yn Ne Cymru. Bu iddo ddechrau gan iddo deimlo bod y cyfryngau yn disgrifio ffoaduriaid mewn modd negatif ar y mwyaf, rhywbeth nad oedd yn teimlo yn gyfiawn.

Nod Thomas oedd dogfennu eu gwir sefyllfa, a darlunio naratif mwy manwl gywir. Ynghyd a'r delweddau fe gynhyrchodd bapur newydd 'The Haven'. Cafodd yr holl erthyglau a delweddau o fewn y papur eu creu gan y ffoaduriaid eu hun. Roedd hwn i roi llais holl bwysig i'r pynciau.

Thomasdeaconphotography.com | tdeacon78@gmail.com



**Ciara Long**

BA (Anrh) Dylunio Patrwm Arwyneb
Coleg Celf Abertawe
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Artist a dylunwr yw Ciara sydd yn defnyddio arlunio i recordio'r byd o'i hamgylch. Casglai trugareddau sydd ag arwyneb manwl a hanesion anadnobedig, ynghyd a thlysau teulu o gudamcan cydraddol fel ffynonnhell gyfoethog o ddelweddau i ysbrydoli ei hymarfer. Gweithia Ciara mewn modd aml-gyfrwng. Trawsffurfia'i darluniau llaw i flociau pren digidol wedi eu hargraffu a laser a sgriniau sydd wedi eu printio'n draddodiadol. Mae'r ychwanegiad o frodwaith a ffoil i arwyneb ei phrintiau yn galluogi'r darluniau ddatblygu i batrymau manwl, gweadol. Mae ei hymarfer yn hyblyg, archwiliol ac amrywiol, sydd yn addas ar gyfer oriel ynghyd ag estheteg dylunio gryf gellid ei weld ar arwyneb nifer o gynhyrchion gwahanol.

ciaralong.co.uk | ciaraprintpattern@yahoo.com



**Catrin Jones**

BA (Anrh) Dylunio Patrwm Arwyneb

Coleg Celf Abertawe

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Arbeniga Catrin yng nghreu ffabrigau moethus, 'high-end' i ffasiwn. Gan fynegi'r tirlun, mae ei chasgliad graddedig yn dal bywiogrwydd natur a phensaernïaeth, yn enwedig pentref Portmeirion a'i chartref yn yr Eryri. Mae'r chwistrelliad o donau melys a'r archwiliad i arwynebau plaen, adlewyrchol, afloyw a thryloyw yn rhoi naws breuddwydiol, swrrealaidd I'w phrintiau. Ei gwir angerdd yw hyrwyddo arwyneb printiol digidol wrth ychwanegu elfennau o frodwaith llaw, addurniad trwm, *sequins* acrylig *laser cut* a phrosesau tecstil traddodiadol. Wedi eu dylunio fel deunyddiau yn addas ar gyfer y *catwal*k, mae Catrin yn dal naws masnachol wrth dynnu elfennau o brintiau allweddol gan greu casgliadau atyniadol a gwreiddiol.

catrinjonesdesign.co.uk | catrineluneddesigns@hotmail.com



**Rose Seymour**

BA (Anrh) Cerameg a Gemwaith
Coleg Celf Caerfyrddin, Coleg Sir Gâr
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Artist aml-gyfrwng yw Rose, sydd yn defnyddio deunyddiau darganfedig ac ailgylchol i greu gemwaith cerfluniol. Y darnau darganfyddol sydd yn penderfynu sut fydd y darn yn gweithio gyda'r corff ac fel byddant yn dod at ei gilydd. Wedi ei hysbrydoli gan ddiffyg preifatrwydd ac awtonomi mewn byd lle cawn ein harsylwi o hyd a lle ymosodir ar ein gwagle personol, mae'r gemwaith hyn yn corffori gwagleoedd cudd i adennill syniad o breifatrwydd.

Mae gan ei gwaith elfen o gyfrannu cymdeithasol gan ffocysu ar nodweddion gwladychol ac economaidd ynghyd a'i hymateb personol i'w hamgylchedd. Yn y corff yma o waith, mae'r defnydd o wrthrychau darganfedig ac ailddefnyddio pethau anghofiedig yn herio'n rhagdybiau o beth sydd yn 'werthfawr' neu 'dibris'.

facebook.com/RoseSeymourArtist | r.seymour132@gmail.com




**Caryl Mair Davies**
BA (Anrh) Cerameg a Gemwaith
Coleg Celf Caerfyrddin, Coleg Sir Gâr
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Yn ddiweddar wedi graddio o Ysgol Gelf Caerfyrddin, Coleg Sir Gar, artist gweledol a ceramegydd yw Caryl sy'n creu lluniau atgofus a llestri ceramig. Ar hyn o bryd mae ffocws cysyniadol ei gwaith yn canoli ar ofergoelion traddodiadol a hen goelion. Fel ceramegydd mae ganddi ddiddordeb mewn prosiectau sy'n gysylltiedig â'r gymdeithas sy'n cynnwys sgyrsiau a chyfnewid rhwng y cenedlaethau am ofergoelion mewn cyd-destun Cymreig. Mae'r broses greadigol yn dechrau wrth dynnu llun a darlunio ofergoelion wrth reddf. Yna caiff y darluniau hyn eu trawsddodi ar arwyneb jygiau a llestri ceramig a wnaed â llaw. Caiff y strategaeth wydro a'r atodyn metel eu rhoi mewn modd mynegiannol ac amrwd. Nod y gwaith yw dathlu ymateb diniwed, naïf a barddonol i synnwyr cyfoethog o ymadroddion, ofergoelion a chredoau.

facebook.com/CeramegCarylDaviesCeramics | [caryldavies24@yahoo.com](mailto:caryldavies24@yahoo.com)

**Gair gan banel Proffil Graddedigion Gwobr Jane Phillips 2015:**

"Lledaenodd y Wobr Jane Phillips ei adenydd y flwyddyn yma i gynnwys graddedigion o gampws Caerfyrddin UWTSD, ynghyd ag Abertawe.

Nid oedd y dasg yn un hawdd i ni. Fe gyflwynid ni gyda grŵp cryf o raddedigion a treuliwyd llawer o oriau yn Abertawe a Chaerfyrddin yn trafod haeddiant gwaith pob person graddedig arddangosol.

Yn yr act o wneud gwelon ni ddwyster cyflawni, wedi ei gyfuno gyda grym gweledigaeth  gonest.

Gwelwn yn y gwaith man dechrau amrywiaeth o yrfaoedd yng nghelfyddyd gweledol ac mae'r artistiaid yma wedi dechrau'n dda"

Keith Bayliss

Artist a Chadeirydd Gwobr Jane Phillips

"Roedd hi'n bleser fod yn un o'r beirniaid ar panel y Wobr Myfyrwyr Gwobr Jane Phillips y flwyddyn yma. Roedd yr holl waith o safon uchel, ac roedd hi'n anodd iawn dewis yr ennillwyr.

Hoffwn i longyfarch yr holl artistiaid am eu gwaith caled, ymrwymiad a gweledigaeth ffantastig.

Roedd fy niweddar chwaer Jane yn ymroddedig i lwyddiant Oriel Mission ac roedd yn ffocws pwysig iddi. Er hynny, roedd ei bywyd yng nghelf  hefyd yn cynnwys cefnogi artistiaid ifanc, newydd ac rwy'n gwybod byddai Jane wedi mwynhau eich gwaith, ac wedi cymryd pleser yn cynnig cefnogaeth a hyfforddiant.

Diolch"

Claire Phillips
Chwaer Jane Phillips

**Pwyllgor Rheoli Gwbr Jane Phillips:**

Keith Bayliss | Cadeirydd
Robert Phillips | Trysorydd
Rhian Wyn Stone | Ysgrifennydd

Amanda Roderick | Cyfarwyddwr Oriel Mission
Claire Densham | Teulu Jane Phillips
Louise Gibbard | Teulu Jane Phillips
Russ Harris | Noddwr Gwobr Jane Phillips

Mae Gwobr Jane Phillips yn cael ei weinyddu gan Oriel Mission

Gloucester Place | Yr Ardal Forol | Abertawe SA1 1TY
01792 652016 | www.missiongallery.co.uk

Cwmni Cyfyngedig dan warant rhif: 06467843
Rhif Cofrestri VAT: 204 7991 96